

CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2008

Cynllun iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â'r Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a'r Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.

Derbyniodd y cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14(1) y Ddeddf ar [23 Mehefin 2009]



1.0 Cyflwyniad

Mae Cymdeithas Tai Linc-Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.0 Ynglŷn â Chymdeithas Tai Linc-Cymru (Linc-Cymru)

Linc-Cymru:

1. Mae'n fusnes ar gyfer Pobl ac Eiddo a'n staff, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yw ein Pobl ac mae ein Heiddo yn cael eu cynrychioli gan y cartrefi yr ydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli.

2. Mae'n canolbwyntio ar:

- Ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer pobl sydd eisiau rhentu neu brynu.
- Cynnal ein stoc tai presennol ledled y De i safon uchel.
- Datblygu cynlluniau defnydd cymysg sy'n cyfrannu at strategaethau Adfywio Cymunedol Awdurdodau Lleol.
- Datblygu cynlluniau arloesol sy'n galluogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth gydag urddas mewn amgylchedd diogel.


3. Cynnal y gwerthoedd o ganolbwyntio, a bod yn gadarnhaol ac arloesol.

4. Mae 4 prif Nod:

- Rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf.
- Cael ein cydnabod am ein dull arloesol.
- Datblygu a chefnogi ein staff.
- Cynllunio a chynnal cartrefi diogel a chyfforddus.

Rydym wedi darparu gwasanaethau i denantiaid, perchnogion cartrefi a chymunedau ledled y De am 30 o flynyddoedd. Mae gennym 3,500 o denantiaethau ar hyd a lled 10 o ardaloedd Awdurdodau Lleol, ym Mlaenau Gwent, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd. Mae ein prif swyddfa yng Nghaerdydd. Mae'r tabl canlynol yn dangos ein heiddo yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol.

Tabl 1 – Cartrefi Linc-Cymru dan Reolaeth yn Ebrill 2007



3.0 Yr Iaith Gymraeg yng nghyd-destun maes gweithredu a phroffiliau cwsmeriaid a staff Linc-Cymru

Mae'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun hwn yn ymwneud â'r galw am y Gymraeg ymysg ein cwsmeriaid, gallu aelodau staff i gyfathrebu yn y Gymraeg a phroffil ieithyddol yr ardaloedd yr ydym yn gweithio ynddynt. Rydym wedi sefydlu hyn drwy ymgynghori â'n cwsmeriaid a'n staff a defnyddio unrhyw wybodaeth gyhoeddus arall sydd ar gael i ni.

Gwybodaeth am Gwsmeriaid

Bob 3 blynedd rydym yn cynnal arolwg cynhwysfawr o safbwyntiau a barn ein cwsmeriaid. Cynhelir arolygon bodlonrwydd staff yn amlach. Ar gyfer ein harolwg yn 2006 gofynnwyd cwestiynau yn benodol am yr Iaith Gymraeg. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau bod gan ein Cynllun Iaith Gymraeg gefndir cyd-destunol. Daw'r wybodaeth isod o Arolwg Tenantiaid 2006.

- Ethnigrwydd – roedd 38% yn ystyried eu hunain yn Brydeinwyr a 57% yn ystyried eu hunain yn Gymry.
- Dywedodd 98% mai Saesneg oedd prif iaith lafar yr aelwyd.
- Dywedodd 42% mai Saesneg oedd yr iaith o'u dewis ar gyfer derbyn gwybodaeth ysgrifenedig. Nid oedd 58% wedi nodi iaith o'u dewis.
- Dywedodd 89% nad ydynt byth yn siarad Cymraeg. Dywedodd 9% eu bod yn siarad Cymraeg peth o'r amser. I 0.2%, Cymraeg oedd iaith gyntaf yr aelwyd.
- Dywedodd 8% eu bod yn deall Cymraeg llafar, dywedodd 6% eu bod yn siarad Cymraeg, dywedodd 5% eu bod yn darllen Cymraeg a dywedodd 3% eu bod yn gallu ysgrifennu yn y Gymraeg.

Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Cynyddodd cyfran y bobl sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ledled ein prif ardaloedd gweithredu yn ystod y cyfnod rhwng 1991 a 2001. (Ffynhonnell - Cyfrifiad 2001)

Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod y galw am wasanaethau Cymraeg yn gymedrol yn yr ardaloedd rydym yn gweithio ynndynt ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu a bydd Linc-Cymru yn ceisio gweithredu yn unol ag egwyddorion *laith Pawb*, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog.

Dimensiwn ein Staff

Rydym wedi gwahodd yr holl staff i gyfrannu at y cynllun iaith hwn. Mae ein canfyddiadau fel a ganlyn:

- Mae 1 aelod staff yn rhugl yn y Gymraeg ac mae gan ganran fach ddealltwriaeth sylfaenol.
- Peth prin yw clywed Cymraeg yn ein cymunedau ac i gwsmeriaid gyfathrebu â'n staff drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hoffai 16 aelod staff ddysgu'r Gymraeg ac maen nhw'n amrywio mewn lefelau rhwng rhugl (3), canolradd (3), a sylfaenol (10).

Dolen gyswllt y Gymdeithas ar gyfer y Cynllun iaith yw'r Pennaeth Adnoddau Dynol, a gellir cysylltu drwy e-bostio hr@linc-cymru.co.uk <<mailto:hr@linc-cymru.co.uk>>

4.0 Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

Polisïau a Mentrau

Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisïau, bydd Linc-Cymru yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun iaith hwn a bydd yn sicrhau bod mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu pan fydd polisïau a mentrau newydd yn cael eu rhoi ar waith.

Ni fydd Linc-Cymru yn diwygio'r Cynllun hwn heb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gytuno ar hynny ymlaen llaw. Bydd Linc-Cymru yn sicrhau bod y staff sy'n ymwneud â'r gwaith o lunio polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Gymdeithas dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

5.0 Darpariaeth Gwasanaethau

Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n gwasanaethau â phosibl ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael. Bydd Linc-Cymru yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun drwy roi'r trefniadau canlynol ar waith:

- Mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darpariaeth y gwasanaeth yn iaith ddewisol yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth;
- Codi ymwybyddiaeth ymysg staff y Gymdeithas o'r Cynllun iaith;

- Cynyddu i ba raddau y mae sgiliau'r Gymraeg ar gael drwy ddarparu hyfforddiant.

Swyddogaethau rheoleiddiol a gwasanaethau trydydd parti

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

Partneriaethau

Mae'r Gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, cyrrff yn y sector wirfoddol ac asiantau eraill. Rydym yn gweithio ar sawl lefel wrth gyd-weithio ac eraill:

- pan mai'r Gymdeithas fydd yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn y bartneriaeth, bydd yn sicrhau fod darpariaeth y gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.
- pan fydd y Gymdeithas yn ymuno a phartneriaeth wedi ei arwain gan gorff arall, bydd mewnbyn y Gymdeithas yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y Gymdeithas yn annog y pleidiau eraill i gydymffurfio.
- pan fo'r Gymdeithas yn bartner mewn consortiwm fydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu cynllun iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y Gymdeithas yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith.

Bydd y Gymdeithas yn sicrhau fod ei swyddogion yn wybyddus o anghenion y Cynllun Iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn gyfartal o ran ansawdd, ac yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

6.0 Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Cyfathrebu Ysgrifenedig

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ohebu â ni yn Gymraeg os oes yn well ganddynt wneud hynny. Ni fydd ysgrifennu atom yn Gymraeg yn arwain at oedi, ynddo'i hun, cyn i chi gael ymateb. Bydd yr ateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth wreiddiol, a bydd gohebiaeth a ddaw yn sgil cyfathrebu wyneb yn wyneb neu gyfathrebu dros y ffôn hefyd yn Gymraeg, oni chytunwyd fel arall.

Mewn achosion lle'r ydym yn ymwybodol bod yn well gan unigolyn, grŵp neu sefydliad dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, caiff ei hanfon yn Gymraeg.

Cyflwynir canllawiau i staff ar sut i gyflawni ein hymrwymiad o ran gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys manylion ar y defnydd o wasanaethau cyfieithu sydd ar gael. Pan fo gohebiaeth wedi'i llofnodi yn cael ei dyblygu yn Gymraeg a Saesneg, llofnodir y ddau gopi.

Cyfathrebu ar y ffon

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ein ffonio yn Gymraeg os oes yn well ganddynt wneud hynny. Bydd pob unigolyn sy'n ffonio'r rhifau ffôn canolog yn

cael eu cyfarch yn ddwyieithog. Gydag amser, byddwn yn ceisio sicrhau bod gennym y gallu i sgwrsio â siaradwyr Cymraeg yn Gymraeg yn y dderbynfa. Yn y cyfamser, bydd unrhyw un sy'n ffonio ac yn defnyddio'r Gymraeg yn cael eu trin mor gwrtais â'r rhai sy'n defnyddio'r Saesneg.

Os oes rhywun sy'n ffonio yn ateb y cyfarchiad cyntaf yn y Gymraeg bydd yn cael y dewis o gael ei gysylltu â chyfieithydd cymwys allanol i gyfieithu sgwrs y ddau barti neu barhau â'r alwad yn Saesneg. Darperir canllawiau i staff ar ymdrin â galwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae Linc-Cymru yn cydnabod hawl y cyhoedd Cymraeg eu hiaith i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus (diffinnir y rhain fel cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd sy'n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw). Bydd hysbysiadau o gyfarfodydd yn gofyn i gyfranogwyr ein hysbysu ymlaen llaw os hoffent ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd trefniadau cyfieithu'n cael eu gwneud yn sgil hyn. Darperir canllawiau ar gyfer staff sy'n trefnu cyfarfodydd o'r fath, gan ddangos pwysigrwydd pennu dewisiadau iaith cyn gynted â phosib.

7.0 Wyneb Cyhoeddus y Gymdeithas

Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd Linc-Cymru yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Bydd hyn yn ymestyn i gynnwys y wybodaeth safonol a ddefnyddir ar ddeunyddiau a nwyddau hyrwyddo, fel papur pennawd, negeseuon ffacs, cardiau busnes, cardiau adnabod, arddangosfeydd, cyhoeddiadau, arwyddion, cerbydau ac adeiladau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni fel rhan annatod o'r gwaith parhaus o ddatblygu ein hwyneb cyhoeddus.

Arwyddion

Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailosod unrhyw arwyddion byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn ddwyieithog. Bydd arwyddion a osodir am y tro cyntaf yn ddwyieithog.

Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau egwyddorion cydraddoldeb o ran iaith. Darparu arwyddion dwyieithog fydd ein harfer safonol, ond ar adegau, pan ddarperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gydradd o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd cyfieithiadau'n cael eu gwneud a'u gwirio gan gyfieithydd proffesiynol hyd nes y byddwn wedi datblygu gallu yn yr iaith Gymraeg yn fewnol.

Deunyddiau Argraffu a Chyhoeddi

Byddwn yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol yn ddwyieithog. Byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd i gydweithredu â Syniad, ein partneriaid consortiwm, wrth lunio deunyddiau sy'n gyffredin i holl aelodau'r consortiwm.

www.linc-cymru.co.uk

Mae ein gwefan yn cael ei diweddarau'n barhaus a'i chynnal gan staff TG mewnol. Bydd o leiaf datganiad Cymraeg neu ran o'r safle'n Gymraeg, a fydd yn egluro sut i gysylltu â Linc-Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd dogfennau a gyhoeddir ar y rhyngwrdd ac sydd â fersiwn Gymraeg yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith.

Ffurflenni a deunydd eglurhaol

Pan fyddwn yn llunio ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd eu llunio gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen. Mewn rhai achosion (efallai oherwydd cymhlethdod ffurflen) ni fydd llunio fersiwn ddwyieithog yn ymarferol, ac efallai bod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg:

- yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd
- yr un mor hawdd i gael gafael arnynt mewn swyddfeydd a chanolfannau dosbarthu eraill
- yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd,
- yn cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall hefyd.

Bydd y Gymdeithas yn ceisio sefydlu iaith o ddewis aelodau'r cyhoedd drwy gynnwys cwestiwn am "yr iaith o'u dewis" ar y ffurflen gyntaf o gyfres ohonynt. Unwaith mae iaith o ddewis yr unigolyn yn hysbys, byddwn yn dosbarthu deunydd yn Gymraeg, yn Saesneg, neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen, fel sy'n briodol.

Byddwn yn sicrhau mai un o'n harferion rheolaidd wrth baratoi'r ffurflenni fydd gwirio bod y termau'n gyson.

Datganiadau i'r Wasg

Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus y Gymdeithas a byddwn felly yn eu cyhoeddi'n ddwyieithog pan fo'n briodol dan yr amgylchiadau.

Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoedduswydd

Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus; Recriwtio Staff a Hysbysebion

Bydd ein hysbysebion swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fo'n briodol dan yr amgylchiadau. Byddant yn gydradd o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd hefyd. Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg. Bydd

pecynnau gwybodaeth, fel disgrifiadau swydd a manylebau person, yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

8.0 Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

Staffio

Bydd Linc-Cymru yn mabwysiadu dull a fydd yn sicrhau bod swyddogaethau sy'n golygu cysylltiad rheolaidd, uniongyrchol â'r cyhoedd, yn ceisio cynnwys, mewn amser, staff sydd â'r sgiliau iaith Gymraeg priodol er mwyn cyflawni nodau'r Cynllun iaith. Bydd y broses recriwtio yn ystyried y strategaeth hon hefyd.

Bydd staff perthnasol yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg a mabwysiadu'r newidiadau gofynnol yn eu harferion gweithio er mwyn sicrhau bod y Cynllun iaith Gymraeg yn cael ei roi ar waith yn effeithiol. Fodd bynnag, ni roddir pwysau ar staff i symud swydd neu i gymryd rhan mewn hyfforddiant iaith.

Bydd gallu ieithyddol yn cael ei ystyried fel un o'r nifer o'r sgiliau perthnasol posibl wrth benodi staff. Byddwn yn penderfynu ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn bodloni gofynion y Cynllun iaith Gymraeg. Pan fo gallu ieithyddol yn cael ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol, nodir hyn mewn hysbysebion swyddi.

Pan benodir ymgeisydd nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol, bydd y penodiad yn ddibynnol ar ymrwymiad i gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi iaith Gymraeg i lefel benodol. Bydd pob penodiad yn cael ei wneud yn gyfan gwbl ar sail teilyngdod ac yn unol â'n Polisi Cyfle Cyfartal a'n deddfwriaeth cyflogaeth.

Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiad diweddarau blynyddol ar y Cynllun iaith Gymraeg i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.

Hyfforddiant yn y Gymraeg

Byddwn yn cefnogi'r Cynllun iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg. Byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff ac yn cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth sefydlu staff newydd.

Trefniadau Gweinyddol

Mae Bwrdd Rheolwyr a Thîm Gweithredol Linc-Cymru wedi cymeradwyo'r Cynllun ac wedi ymroi'n llwyr i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Mae'r cyfrifoldeb am gydgyssylltu'r Cynllun wedi'i neilltuo i'r Rheolwr Personél a bydd yr holl ymholiadau'n cael eu cyfeirio ato. Bydd yr holl gyfarwyddwyr a rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith eu hunain ac am sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r Cynllun.

I'r aelodau staff hynny a neilltuir â'r cyfrifoldeb penodol o gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog, neu sydd â chyfrifoldebau eraill a nodir yn y ddogfen hon, darperir gyfarwyddyd a chanllawiau.

Adolygu Gweithrediad y Cynllun

Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol a bydd yn anfon copi o'r adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn y fformat a gytunwyd gan y Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau a dderbyniwyd gan y cyhoedd mewn perthynas â'r Cynllun.

Cyhoeddi Gwybodaeth

Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle gall aelodau'r cyhoedd gael gafael ar gopi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddusrwydd

Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n ymdrin â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant drafod gyda'r Gymdeithas drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn defnyddio gweithdrefnau safonol y Gymdeithas ar gyfer cwynion er mwyn cofnodi ac ymdrin â chwynion am y Cynllun ac yn sicrhau y bydd yn bosibl monitro cwynion penodol am y Cynllun.

Bydd ein dulliau o hyrwyddo'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol a bydd yn cynnwys sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun hwn ar gael drwy gysylltu â'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.